**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-L/LG/0293/19

19 Mawrth 2019

Annwyl Elin,

**Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2019**

Yn unol â'r canllawiau, rwy'n eich hysbysu y bydd adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cyflwyno'r rheol y bydd offynnau statudol yn dod i rym o leiaf 21 diwrnod o ddyddiad eu gosod, yn cael ei thorri er mwyn gallu cyflwyno Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2019. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol i chi er eich gwybodaeth.

Mae Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2019 ("y Gorchymyn Diwygio") yn diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 ("y Prif Orchymyn) er mwyn sicrhau bod y Prif Orchymyn yn intra vires. Yn benodol, mae'r Gorchymyn Diwygio'n dileu'r elfen sy'n cyfeirio at gychod pysgota Cymru sy'n pysgota y tu allan i Gymru ac i Barth Cymru fel nad ydynt yn dod o dan gwmpas y Prif Orchymyn, gan gyfyngu'r defnydd o'r offeryn i Gymru ac i barth Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cefndir**

Mae’r Prif Orchymyn yn creu cynllun ar gyfer dyroddi a thalu hysbysiadau cosb ynglŷn â throseddau penodol sy'n ymwneud â physgota môr. Mae’n dirymu Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau’r Gymuned) (Hysbysiadau Cosb) 2008 gan ddisodli hwnnw â chynllun sy’n gymwys i droseddau a grëir o dan ddeddfwriaeth ddomestig yn ogystal â’r rhai sy’n codi o ganlyniad i dorri cyfyngiad cymunedol gorfodadwy neu rwymedigaeth arall.
Mae erthygl 1(3) o'r Prif Orchymyn yn datgan ei fod yn gymwys o ran Cymru, parth Cymru, a chychod pysgota Cymru ym mha le bynnag y bônt. Y ffaith amdani yw bod y pŵer galluogi perthnasol (adran 294 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009) yn caniatáu i Weinidogion Cymru yn unig i greu cynllun ar gyfer hysbysiadau cosb sy'n gymwys i Gymru a Pharth Cymru. Felly, i'r graddau bod y Prif Orchymyn yn gymwys i gychod pysgota Cymru y tu allan i barth Cymru, mae'n ultra vires.

Byddai'r Gorchymyn Diwygio yn diwygio'r Prif Orchymyn er mwyn dileu'r cyfeiriad yn Erthygl 1(3) at gychod pysgota Cymru ym mha le bynnag y bônt. Yn sgil hynny byddai'r Prif Orchymyn yn gymwys i Gymru a pharth Cymru yn unig, ac felly'n intra vires.

Mae angen torri'r rheol 21 diwrnod i sicrhau nad yw'r Prif Orchymyn yn ultra vires pan fydd yn dod i rym ar 22 Mawrth 2019. Oherwydd cymhlethdod y darpariaethau perthnasol sy'n ymdrin â throsglwyddo swyddogaethau a'r llwyth gwaith na welwyd ei debyg o'r blaen sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaethau Cyfreithiol mewn perthynas ag ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE), dim ond yn ddiweddar y cafodd y gwall yn Erthygl 1(3) o'r Prif Orchymyn ei nodi.

Er nad yw'n cael ei wneud o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018, ystyrir bod y Prif Orchymyn yn ddymunol cyn i'r DU adael yr UE. Yn ychwanegol, mae angen inni gael y cynllun er mwyn sicrhau mwy o hyblygrwydd wrth orfodi cyfraith pysgodfeydd. Roedd Llywodraeth y DU wedi rhoi cynllun tebyg ar waith yn Lloegr yn unig yn 2011. Dylid nodi bod y cynllun yn Lloegr yn gymwys i gychod pysgota Cymru y tu allan i barth Cymru.

Oherwydd bod hwn yn fater o frys, ni fu'n bosibl cynnal ymgynghoriad mewn perthynas â'r Gorchymyn Diwygio. Fodd bynnag, dylid nodi mai unig effaith y Gorchymyn Diwygio yw gwneud y Prif Orchymyn yn intra vires, gan sicrhau felly bod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn gweithredu mewn modd cyfreithlon. Yn ychwanegol, bydd y Gorchymyn Diwygio yn cyfyngu, yn hytrach na chynyddu, effaith y Prif Orchymyn ar y diwydiant pysgota yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau

Yn gywir,

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.